

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**  
**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

**Cofnodion** o'r cyfarfod yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol,  
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach  
ddydd Mawrth 5 Medi 2017 am 5:00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A. S. Fox – yn cadeirio

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol**

S. A. Bradwick	E. Webster
A. Cox	D. Williams
L. Jones	T. Williams
W. Lewis	

**Swyddogion oedd yn bresennol:**

Mr P. J. Mee – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd  
Mr P. Nicholls – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau  
Ymglyfreitha, Cynllunio a'r Amgylchedd, Cymuned a Phlant  
Mr G. Black – Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu  
Mr L. Morgan – Rheolwr Cynorthwyol Materion Trwyddedu  
Mrs L. Davies – Pennaeth Materion Iechyd yr Amgylchedd, Safonau  
Masnach, a Diogelwch y Gymuned

**23. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol  
M. Diamond, S. Morgans ac S. Powderhill.

**24. DATGAN BUDDIANT**

**PENDERFYNWYD** – Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau  
o fuddiant personol ynglŷn â'r agenda.

**25. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A DEDDF TROSEDD AC ANHREFN**

**PENDERFYNWYD** – I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion  
trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i  
beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar  
Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**26. COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor  
Trwyddedu, a gafodd ei gynnal ar 27 Gorffennaf 2017, yn rhai cywir.

**27. TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWDYD O DAN  
DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG**

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a roddwyd yn ystod y cyfnod 10 Gorffennaf 2017 tan 13 Awst 2017. Ar ôl ystyried yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

## **28. GWAHARDD AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** – bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Mae eglurder wrth reoli busnes yr Awdurdod Lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd data personol yn ymwneud ag ymddygiad a gallu unigolion yn cael eu trafod a'u hystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

## **29. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 – TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI / CERBYD HURIO PREIFAT – CEISIADAU AC ADNEWYDDU**

Yn ei adroddiad, eglurodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – y manylion am gais am adnewyddu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat, cais am adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat, a thri chais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

1. Cyn i Mr LDJE o'r Porth gael ei groesawu gan y Pwyllgor, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor fod disgwyl i'r Ymgeisydd fod ger bron y llys ar 5 Hydref 2017 mewn perthynas â mater ar wahân, felly, mae'n bosibl bydd y Pwyllgor eisiau ystyried gohirio penderfynu'r cais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat hyd nes bydd yr achos wedi cael gwrandawriad.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor ohirio penderfynu'r mater i gyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor Trwyddedu er mwyn i'r Aelodau ystyried y cais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

2. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr PJJ o'r Porth, a oedd yn bresennol, ei groesawu gan y Pwyllgor i gael ystyried ei gais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais yn amodol ar y telerau ac amodau safonol arferol; â rhybudd.

(**Noder:** Cyn i'r ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd

gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

3. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr AB o Gaerdydd, a oedd yn bresennol, ei groesawu gan y Pwyllgor i gael ystyried ei gais am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat (nid am adnewyddu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad).

Ar ôl ystyried yr wybodaeth ger ei fron, gan gynnwys gwybodaeth ategol gan yr ymgeisydd i gefnogi ei gais, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais oherwydd bod Mr AB o Gaerdydd wedi methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

4. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr APJ o Drealaw ei groesawu gan y Pwyllgor – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am adnewyddu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais yn amodol ar y telerau ac amodau safonol arferol; â rhybudd am weithgarwch yn y dyfodol.

(**Noder:** Cyn i'r ymgeisydd adael y cyfarfod, pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen rhoi sylw dyledus i'r rhybudd wedi ei roi gan y Pwyllgor oherwydd gallai methu â gwneud hynny effeithio ar benderfynu ar geisiadau yn y dyfodol.)

5. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – ei adroddiad ar adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat yn achos Mr TE o'r Gilfach-goch.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, ynghyd â chyfle i wyllo System Teledu Cylch Cyfyng ar fideo, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ddirymu'r drwydded oherwydd bod Mr TE o'r Gilfach-goch wedi methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

### **30. YSTYRIED CEISIADAU I'W PENDERFYNU O DAN DDARPARIAETHAU DEDDF DELWYR METEL SGRAP 2013**

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – fanylion am y cais canlynol am gael Trwydded Deliwr Metel Sgrap o dan ddarpariaethau Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013.

1. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr SL o Gaerffili ei groesawu gan y Pwyllgor – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael trwydded gweithredwr teithiol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais am drwydded gweithredwr teithiol.

### **31. CRYNODEB O FATERION GORFODI**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apelïadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 17 Gorffennaf 2017 tan 25 Awst 2017. Ar ôl ystyried yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys, a oedd wedi ei roi er gwybodaeth yn unig.

### **32. CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG**

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – grynodeb o Drwyddedau a/neu Gofrestriadau a roddwyd o dan ddarpariaethau Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 10 Gorffennaf 2017 tan 13 Awst 2017 a **PHENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

### **33. SYLWADAU'R CADEIRYDD**

Cyhoeddodd y Cadeirydd mai hwn fyddai'r Pwyllgor Trwyddedu olaf y byddai Mr Lee Morgan yn ei fynychu yn rhinwedd ei swydd yn Rheolwr Cynorthwyol Materion Trwyddedu yn Rhondda Cynon Taf cyn ymgymryd â swydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i Mr Morgan am ei ymroddiad a'i gymorth i aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu. Roedd hefyd am ddiolch yn bersonol i Mr Morgan am roi cymorth iddo yn Gadeirydd. Dymunodd y Pwyllgor yn dda i Mr Morgan yn ei swydd newydd a'i ddyfodol.

A. S. Fox  
Cadeirydd

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45pm.